Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2024-25

(1 Awst 2024 – 31 Gorffennaf 2025)

Wedi'i baratoi yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Robin Gwyn, Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd - 31 Ionawr 2026

CYNNWYS

1. Cyflwyniad
2. Cydymffurfio â Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisïau a Safonau Gweithredu
3. Monitro Cydymffurfiaeth
4. Cwynion
5. Sgiliau Iaith Gymraeg Staff
6. Hyfforddiant Staff
7. Recriwtio staff i Swyddi Gwag
8. Manylion Cyswllt am Ragor o Wybodaeth

1. Cyflwyniad

Derbyniwyd hysbysiad cydymffurfio terfynol Comisiynydd y Gymraeg gan Grŵp Colegau NPTC ym mis Medi 2017 (cyn ei weithredu o 1 Ebrill 2018 ymlaen). Roedd hyn yn amlinellu dyletswydd y coleg i gwrdd â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg statudol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Rhif 6), Rheoliad 2017.

Cyflwynwyd y cysyniad o 'Safonau'r' Iaith Gymraeg gan Lywodraeth Cymru fel set o ofynion cyfreithiol rhwymol i gael eu rheoleiddio'n annibynnol gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Safonau yn sefydlu hawliau cyfartal i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg, yn seiliedig ar ddwy egwyddor:

- **'Yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'**
- **'Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny'**

Yn unol â Gweledigaeth a Chynllun Strategol y Coleg, mae cydymffurfio statudol wedi darparu gwaelodlin ar gyfer y Coleg i sicrhau y bydd y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir o'r un ansawdd a hygyrchedd â'r gwasanaeth Saesneg a ddarperir.

2.1 Cydymffurfio â Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisïau, Cadw Cofnodion a Safonau Gweithredu

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi Adroddiad Sicrwydd Blynyddol sy'n manylu ar brofiad y cyhoedd o ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus (yn seiliedig ar arolygon 'siopwr cudd' i werthuso'r ddarpariaeth) gan gynnwys ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan golegau AB.

Mae canlyniadau'r arolwg 'siopwr cudd' – ynghyd ag ymatebion holiadur hunanasesu blynyddol y Coleg ei hun – yn destun cyfarfod adolygu cydymffurfiaeth blynyddol a gynhelir rhwng y Coleg a Swyddfa'r Comisiynydd yn yr hydref/gaeaf bob blwyddyn.

O ganlyniad i'r cyfarfod adolygu/adborth ar 18 Medi 2023 gyda Chomisiynydd y Gymraeg, cytunwyd ar gamau dilynol a oedd yn canolbwyntio ar:

- Sefydlu **'Grŵp Cydymffurfiaeth Fewnol Safonau'r Gymraeg'** o reolwyr swyddogaethol i gyfarfod bob mis i fonitro cydymffurfiaeth o ddydd i ddydd. (Mae hyn yn ychwanegol at y Gweithgor Dwyieithrwydd sy'n parhau i gyfarfod bob chwarter i osod cyfeiriad strategol a goruchwylio datblygiad polisi).

- Y Coleg yn comisiynu ei **raglen gydymffurfiaeth hapwirio annibynnol** ei hun i ategu Arolygon Siopwr Cudd ac Adroddiadau Sicrwydd Blynyddol CyG.

  Yn 2019, adolygodd adroddiad archwilio mewnol gydymffurfiaeth mewn 14 o feysydd gwaith y Coleg (gan gynnwys cyfres o ymarferion ar ffurf siopwr cudd a gynhaliwyd gan archwilwyr mewnol y Coleg). Adroddwyd lefel uchel o gydymffurfiaeth ar y cyfan, gyda sicrwydd sylweddol wedi'i roi.

  Fodd bynnag, roedd chwe cham gweithredu ar gyfer rheolwyr, gan gynnwys argymhelliad y dylid cynnal hapwiriadau gwirio uniongyrchol unwaith y tymor ar sampl o Safonau'r Gymraeg.

  Er mwyn cwblhau'r gofyniad uchod, mae Ymgynghoriaith RHD Cyf wedi cael ei gomisiynu i gynnal cyfres o ymarferion gwirio ar hap annibynnol dros dair blynedd (2023-24, 2024-25, 2025-26). Gwiriwyd cyfanswm o 12 o Safonau yn 2024-25 fel rhan o'r rhaglen tair blynedd i adolygu cyfanswm o 36 o Safonau allweddol.

2.2 Darpariaeth y Cwricwlwm

Grant datblygu ôl-16 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg:

Yn ystod 2024-25, derbyniodd Grŵp Colegau NPTC Grant Addysg Bellach a Phrentisiaethau o tua £142,400 gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu darpariaeth cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y meysydd a ganlyn:

- **Iechyd a Gofal**
- **Gofal Plant**
- **Gwasanaethau Cyhoeddus**
- **Chwaraeon**
- **Astudiaethau ar y Tir**
- **Busnes**
- **Y Diwydiannau Creadigol**
- **Adeiladwaith**

Yn ogystal, darparodd y CCC grant o £26,880 ar gyfer y cynllun Cymraeg Gwaith i ddarparu gwersi Cymraeg i staff.

Yn gyfnewid, cyflwynodd y Coleg 'Gynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg' gan gynnwys targedau/allbynnau y cytunwyd arnynt ar effaith fwyaf effeithlon defnyddio'r cyllid ar gyfer ei staff a'i ddysgwyr.

3. Monitro Cydymffurfiaeth

Y Prif Weithredwr ("PW") sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r Polisi Iaith Gymraeg, gan gynnwys Safonau'r Iaith Gymraeg. Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod uwch reolwr yn atebol am weithredu a monitro'r polisi.

Mae rheolwyr llinell yn atebol am weithredu'r agweddau hynny ar y Polisi sy'n berthnasol i'w meysydd cyfrifoldeb ac am ddarparu adborth ar gydymffurfio yn y meysydd hynny mewn perthynas â gofynion y Polisi. Bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn nodi Aelod a fydd â'r cyfrifoldeb dynodedig dros hyrwyddo dwyieithrwydd.

Y Gweithgor Dwyieithrwydd (BWG), dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Cynorthwyol: Cwricwlwm, sydd â cyfrifoldeb cyffredinol dros fonitro gweithrediad y polisi mewn cydweithrediad â grŵp craidd y Gweithgor Dwyieithrwydd, sef y Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd, Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cyfieithwyr y Coleg a'r Swyddog Cymorth Busnes i'r Penaethiaid Cynorthwyol, a gyda'u cymorth hwy.

Mae'r Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd yn gyfrifol am weithrediad gweithredol gyda chynnydd yn cael ei fonitro a'i werthuso trwy baratoi:

- Adroddiadau chwarterol ar gynnydd i'r Gweithgor Dwyieithrwydd/Uwch Dîm Rheoli;
- Adroddiadau blynyddol sy'n cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg (Cadw Cofnodion a Materion Atodol);
- Archwiliadau a gwiriadau siopwr cudd rheolaidd i fonitro effeithiolrwydd ymatebion i argymhellion CyG ac Estyn.

Gwneir staff yn ymwybodol o rwymedigaethau'r Polisi yn ystod y cyfnod cynefino staff a rhaglen dreigl barhaus o sesiynau ymwybyddiaeth. Atgyfnerthir hyn drwy osod y Polisi ar fewnrwyd y staff, ar wefan y Coleg ac ar fewnrwyd y myfyrwyr.

4. Cwynion

Derbyniwyd un gŵyn ynghylch gwasanaethau Cymraeg rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025.

Yn ystod tymor yr Hydref 2024-25, cynhaliwyd ymarfer siopwr cudd gan Ymgynghoriaith RHD i asesu cydymffurfiaeth y coleg â gofynion cyfreithiol (gweler adran 2.1 uchod). Mabwysiadodd y siopwr cudd rôl darpar ddysgwr yn ceisio ymrestru ar gwrs coleg (yn ei flwyddyn olaf mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ac yn dymuno dechrau yn y coleg ym mis Medi 2025).

Ymchwiliodd y siopwr cudd (neu'r darpar ddysgwr) wefan y coleg ar ochr yr iaith Gymraeg i gael gwybodaeth am gyrsiau a'r broses ymrestru. Yn seiliedig ar brofiad y siopwr cudd/darpar ddysgwr, anfonwyd llythyr cwyn at y coleg ar 11 Rhagfyr 2024 ynghylch achosion posibl o dorri safonau'r iaith Gymraeg. Anfonwyd y llythyr i flwch post Derbyniadau yn amlinellu sawl cwyn am dudalennau ymrestru'r wefan.

Derbyniwyd ateb dros dro gan y coleg gan Ymgynghoriaith RHD ar 16 Rhagfyr yn rhoi sicrwydd i'r achwynydd fod eu cwyn wedi'i huwchgyfeirio a'i bod yn cael ei thrin ac y byddai'n cael ateb llawn yn fuan. Fodd bynnag, oherwydd bod y coleg wedi cau am bythefnos dros gyfnod y Nadolig, anfonwyd ateb dros dro pellach ar 20 Rhagfyr yn egluro y byddai angen mwy o amser ac y byddai'r staff perthnasol yn ymateb pan fyddai'r coleg yn ailagor ar 6 Ionawr 2025. Derbyniwyd yr ateb terfynol a llawn gan RHD ar 7 Ionawr 2025.

Mae'r holl reolwyr yn y Coleg yn derbyn diweddariad hyfforddi blynyddol ar sut i ymdrin â a rheoli cwynion. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i'r Coleg gydymffurfio â hwy. Cyfeirir yn benodol at Reoliad Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 6) 2017, yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth - Adran 44 Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Memorandwm Esboniadol i Reoliad Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 6) 2017.

5. Sgiliau Iaith Gymraeg Staff (ar 31 Gorffennaf 2025)

Safon 178:

(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 158): 'Rhaid ichi gadw cofnod o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.')

Mae'n ofynnol i staff ddiweddaru a chynnal eu sgiliau iaith Gymraeg trwy'r Dangosfwrdd AD (system AD a'r gyflogres). Yn ôl y cofnodion a ddaliwyd ar 31 Gorffennaf 2025, cofnodwyd bod gan gyflogeion y Coleg y lefel ganlynol o sgiliau iaith Gymraeg.

	Siarad	Darllen	Ysgrifennu	Dealltwriaeth
Rhugl	52	47	34	58
Da	21	30	36	26
Sylfaenol	292	253	218	302
Dysgu	97	85	84	91
Dim	173	210	242	161

6. Hyfforddiant a Datblygiad Staff (1 Awst 2024 – 31 Gorffennaf 2025)
Safon 178:

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 159);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn honno, canran y cyfanswm o staff a fynychodd y cwrs hwn a aeth i'r sesiwn Cymraeg - yn cynnwys y nifer (a'r canran, os yn berthnasol) o aelodau o staff a fynychodd hyfforddiant penodol y mae rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (hynny yw hyfforddiant ynglŷn â recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau disgyblu a chwynion, ymgynefino, delio â'r cyhoedd, ac iechyd a diogelwch).

Ymwybyddiaeth o/Arweiniad ar Safonau'r Iaith Gymraeg (darpariaeth ddwyieithog):

Cyflwyno'r cwrs hyfforddi ar-lein yn llawn: *Safonau'r Iaith Gymraeg: cwrs e-ddysgu ar-lein rhyngweithiol ymarferol wedi'i gynllunio i alluogi staff i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau allweddol o dan y gyfraith (Mesur y Gymraeg, 2011). Ers ei gyflwyno yn 2022, roedd cyfanswm o 693 o staff (84%) wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.*

Cymraeg Gwaith:

Yn ystod 2023-24, derbyniodd y Coleg grant 'Cymraeg Gwaith' o £28,000 gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi staff addysgu i ddysgu Cymraeg.

Dysgu Ffurfiol: Cyrsiau wyneb yn wyneb (trwy Teams)

Yn 2024-2025, addysgwyd pum dosbarth Cymraeg trwy Teams (Mynediad 1+2, 8; Sylfaen 1, 5; Canolradd 1, 4; Uwch 1i, 6; Uwch 2i, 3). Roedd 26 aelod o staff wedi'u cofrestru ar gwrs Cymraeg ym mis Medi 2024. Cwblhaodd cyfanswm o 22 (85%) y cwrs yn llwyddiannus. O'r 22 dysgwr a gwblhaodd eu cwrs, parhaodd 18 i ddysgu Cymraeg ym Medi 2025 (dilyniant = 91%).

Dysgu Ffurfiol: Cyrsiau Hunan-astudio

Gwnaeth 6 aelod o staff ymrestru a dechrau cwrs hunan-astudio ar-lein yn 2024/25.
Cwblhaodd 2 (33%) eu cwrs yn llwyddiannus ac mae 3 (50%) wedi parhau i ddysgu Cymraeg yn 2025-26.

Arholiadau 'Defnyddio'r Gymraeg' CBAC
Gwnaeth 3 aelod o staff sefyll a llwyddo (100%) yn arholiad 'Defnyddio'r Gymraeg' CBAC yn 2025.

Polisïau a Gweithdrefnau AD

Rhwng 1 Awst 2024 - 31 Gorffennaf 2025, ni chafodd unrhyw hyfforddiant ei gyflwyno (ac na wnaed cais amdano) trwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd a ganlyn:

- recriwtio a chyfweld.
- rheoli perfformiad.
- gweithdrefnau cwyno a disgyblu.
- iechyd a diogelwch.

Fodd bynnag, rydym yn sicrhau ein bod yn cynnwys sleidiau dwyieithog mewn cyflwyniadau hyfforddi staff ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a dysgu'r iaith Gymraeg yn gryf fel rhan o'r hyfforddiant hwn. Mae gennym ni hefyd siaradwyr Cymraeg o fewn y tîm Datblygu sy'n gallu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaethom gyflwyno amrywiaeth o gyrsiau i'n tîm staff, gan gynnwys hyfforddiant Arweinyddiaeth a gynigiwyd i'r Tîm Arweinyddiaeth Cyfan a oedd yn ddwyieithog. Roedd hyn yn golygu bod cyfranogwyr yn gallu ymuno ag ystafell drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y sesiynau ymneilltuo.

7. Recriwtio Staff (1 Awst 2024 – 31 Gorffennaf 2025)

Safon 178:

(d) Nifer o swyddi gwag a swyddi newydd a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categoreiddio fel swyddi:

(i) lle roedd sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.

(ii) lle roedd angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd.

(iii) lle roedd sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu

(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 162);

Yn ystod y cyfnod 1 Awst 2024 i 31 Gorffennaf 2025, hysbysebwyd cyfanswm o 157 o swyddi ar gyfer swyddi gwag o fewn y Coleg. Gellir eu categoreiddio fel a ganlyn;

- Hysbysebwyd cyfanswm o 2 swydd lle yr oedd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hystyried yn hanfodol.
- Dynodwyd cyfanswm o 6 swydd fel swyddi lle y bydd angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg ar ôl penodi.
- Hysbysebwyd cyfanswm o 149 o swyddi lle yr oedd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hystyried yn ddymunol.

8. Rhagor o Wybodaeth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r adroddiad hwn neu unrhyw agwedd ar gydymffurfiaeth Grŵp Colegau NPTC â Safonau'r Iaith Gymraeg, cysylltwch â:

Robin Gwyn
Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd, Grŵp Colegau NPTC,
07787 125 711, robin.gwyn@nptcgroup.ac.uk